Beth yw Canolfan Cydweithredol Cymru?

Asiantaeth datblygu cydweithredol yw'r Ganolfan sy'n cefnogi datblygu mentrau cydweithredol a mentrau cymdeithasol. Mae hefyd yn helpu i fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol ac yn dod ag unigolion economaidd anweithgar yn ôl i fyd gwaith.

Mae pwysigrwydd yr economi gymdeithasol wrth gyflwyno swyddi a gwasanaethau yn cael ei gydnabod gan y Llywodraeth ar bob lefel. Sefydlwyd Canolfan Cydweithredol Cymru ym 1982 fel Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus, ac mae'n bartner ac yn ddarparwr allweddol wrth helpu i ddatblygu'r sector hwn yn economi Cymru.

Mae ei thîm o ymgynghorwyr busnes a swyddogion datblygu yn gweithio ledled Cymru gan roi grym i unigolion a chymunedau er mwyn iddynt reoli eu dyfodol a sefydlu busnesau gyda nodau cymdeithasol a moesegol yn ogystal ag amcanion economaidd cadarn.

Ers 1982 mae'r Ganolfan wedi helpu i sefydlu dros 1,000 o fusnesau ledled Cymru ac mae'n parhau i gefnogi busnesau cyfredol drwy ystod o wasanaethau cefnogi busnes a hyfforddiant. Heddiw, hi yw'r asiantaeth datblygu cydweithredol fwyaf yng Nghymru.

Wrth gefnogi datblygu sector cydweithredol ffyniannus yng Nghymru, mae'r Ganolfan yn un o gyflwynwyr allweddol Strategaeth Menter Gymdeithasol y Cynulliad. Mae'n cadeirio Rhwydwaith Menter Gymdeithasol Cymru gyfan, yn bartner ar Rwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf ac yn aelod o fwrdd Clymblaid Menter Gymdeithasol y DU.

Mae'r Ganolfan yn cyflogi mwy na 50 aelod o staff ledled Cymru ac mae'n atebol i fwrdd rheoli gwirfoddol.

Pa Wasanaethau y Gallwn eu Cynnig?

Mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn rheoli tair menter o bwys yng Nghymru:

- Mae'r Prosiectau Cefnogi Busnes a Hyfforddiant yn targedu mentrau cymdeithasol cydweithredol, gan roi cyngor, sgiliau a gwybodaeth iddynt i ddatblygu'n fentrau masnachu llwyddiannus. Ers mis Ionawr 2004, mae'r Ganolfan wedi helpu i sefydlu mwy na 150 o fusnesau gan arwain at greu neu ddiogelu dros 1,000 o swyddi gyda 1,700 yn elwa ar ei chyrsiau hyfforddi.

- Mae'r Prosiect Ymarfer Menter (PYM) yn galluogi'r sawl sy'n hawlio budd-daliadau i roi cynnig ar syniad busnes heb effeithio ar eu hawl i fudd-daliadau. Mae'n rhwyd ddiogelwch i gyfranogwyr gan eu galluogi i ddatblygu'r busnes cyn dod oddi ar fudd-daliadau a mynd yn hunangyflogedig. Ers mis Ionawr 2002, mae PYM wedi helpu mwy na 600 o bobl i gymryd y cam o ddiweithdra i hunangyflogaeth neu gyflogaeth.

- Mae Cymunedau@Ei Gilydd yn fenter gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a fydd yn galluogi unigolion a chymunedau i gysylltu â thechnolegau newydd, defnyddio TGCh mewn ffyrdd sy'n berthnasol iddynt a helpu i wella ansawdd eu bywyd gan fanteisio'n llawn ar wybodaeth, gwasanaethau a chyfleoedd ar-lein. Mae'n gweithredu rhaglen grant £4.5 miliwn.

Cyswllt

Canolfan Cydweithredol Cymru
Llys Llandaf
Ffordd Tyllgoed
Caerdydd CF5 2XP

Ffôn: 029 2055 4955
Ffacs: 029 2055 6170
E-bost: walescoop@walescoop.com
Gwefan: www.walescoop.com